# ADRODDIAD Y PWYLLGOR BUSNES

## DIWYGIO RHEOLAU SEFYDLOG

1. Mae'r copïau sydd ynghlwm o Reolau Sefydlog (ceir y testun Saesneg yn Atodiad A a'r testun Cymraeg yn Atodiad B) yn cynnwys nifer o ddiwygiadau arfaethedig sydd wedi'u nodi fel newidiadau wedi'u marcio. Mae'r diwygiadau'n deillio o adolygiad gan swyddogion a chyfreithwyr o Swyddfa'r Llywydd o'r Rheolau Sefydlog.

### Cefndir

2. Cynhaliwyd yr arolygiad oherwydd y teimlai swyddogion fod diwedd y Cynulliad Cyntaf yn amser da i gyfuno'r newidiadau niferus a wnaed i Reolau Sefydlog dros y pedair blynedd cyntaf. Byddai hefyd yn gyfle i ddileu'r anghysonderau a'r gwahaniaethau a oedd bellach yn bodoli. Os bydd y diwygiadau'n cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad, bydd y fersiwn blaenorol o'r Rheolau Sefydlog â newidiadau wedi'u marcio yn cael ei roi yn yr archifau a bydd y fersiwn diwygiedig yn sail ar gyfer y fersiwn nesaf â newidiadau wedi'u marcio.

### Cwmpas yr Adolygiad

3. Roedd cwmpas yr ymarfer yn fwriadol gyfyngedig i:

i. "gwallau teipograffyddol neu ramadegol, neu fân wallau drafftio" yn yr ystyr y'u defnyddir yn y Memoranda Cywiriadau a gyflwynir gerbron Y Pwyllgor Deddfau;

ii. dileu anghysonderau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg

Tynnir sylw at rai cynigion dadleuol posibl ac at gynigion mwy eang eu cwmpas ym mharagraff 7 isod.

4. Un o'r prif fwriadau oedd safoni terminoleg a'r defnydd o Brif Lythrennau e.e.:

- cyfarfodydd llawn yn hytrach nag eisteddiadau neu sesiynau
- Rheol Sefydlog yn hytrach na pharagraff (er bod rhai eithriadau i'r rheol hon)
- Aelodau Cynulliad ond aelodau o Bwyllgorau
- pwyllgorau cyffredinol a Phwyllgorau penodol

5. Nid oes unrhyw ddiwygiadau wedi'u gwneud mor belled i rifau na threfn y Rheolau Sefydlog yn y dogfennau sydd ynghlwm. Mae'r cynnig i gymeradwyo'r newidiadau yn cynnwys cynigion i ailstrwythuro Rheolau

Sefydlog e.e. i grwpio Rheolau Sefydlog 35 a 36 â'r Rheolau Sefydlog eraill sy'n gysylltiedig â phwyllgorau; ac i ailrifo Rheolau Sefydlog fel y bo'n briodol. Bydd angen ymgymryd ag ailrifo yn drylwyr ac yn drefnus, yn ystod Toriad Y Pasg.

**Y Testun Cymraeg**

6. Mae'r testun Cymraeg yn Atodiad B yn cynnwys y diwygiadau arfaethedig i'r testun Saesneg ynghyd â'r newidiadau i roi trefn ar y Gymraeg. Nid oedd y materion a oedd yn codi yn y testun Cymraeg yn adlewyrchu ystyr y testun Saesneg.

**Cynigion Eraill**

7. Tynnir sylw yr Aelodau at y diwygiadau arfaethedig canlynol:

<u>(i) Cynigion Gweithdrefniadol</u>

Mae'r Rheolau Sefydlog sy'n gysylltiedig â chynigion gweithdrefniadol yn anghyson:

- Mae Rheol Sefydlog 6.10 (gohirio eitem o fusnes) yn awgrymu araith oddi wrth y person sy'n cynnig y cynnig gweithdrefniadol yn unig.
- Mae Rheol Sefydlog 6.17 (cau dadl) a Rheol Sefydlog 6.18 (parhau â dadl neu ei gohirio) yn awgrymu dim areithiau.
- Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 6.15 (sy'n ymdrin â phob cynnig gweithdrefniadol) yn awgrymu dwy araith fer.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymell y dylid cael dwy araith fer ar bob achlysur.

<u>(ii) Gohirio neu Estyn Dadl</u>

Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymell y dylid diwygio Rheol Sefydlog 6.18 er mwyn:-

- galluogi Aelodau, os bydd y Llywydd yn cyhoeddi ei fod neu ei bod yn fodlon (ar ôl ystyried y cyfnod dangosol a ddyrannwyd i'r mater) na fydd digon o amser ar gael ar gyfer dadl ar unrhyw gynnig, i gynnig y dylid caniatáu i ddadl ar gynnig barhau am gyfnod penodol ar y diwrnod hwnnw neu y dylid ei ohirio i ddiwrnod arall; a
- egluro hyd yr estyniad i'r cyfarfod, os bydd cynnig o dan Reol Sefydlog 6.18 yn cael ei gymeradwyo.

<u>(iii) Cwestiynau i Bwyllgor y Ty</u>

Ar hyn o bryd mae Rheol Sefydlog 6.31 yn atal Aelodau rhag cyflwyno cwestiynau brys i Bwyllgor y Ty. Cynhwyswyd y ddarpariaeth hon oherwydd nas rhagwelid y byddai'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion "o bwysigrwydd cyhoeddus brys" ac ni fyddai'r rhybudd o ddwy awr yn galluogi'r Pwyllgor i baratoi a chymeradwyo ateb. Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymell y dylai Pwyllgor y Ty allu ateb cwestiynau brys.

(iv) Cworwm mewn Pwyllgor

Mae Rheolau Sefydlog 8.8 hyd 8.10 wedi'u symleiddio er mwyn ei gwneud yn glir y dylai'r Cadeirydd ddatgan nad yw cyfarfod pwyllgor yn gwneud cworwm pryd bynnag nad oes digon o aelodau yn bresennol i wneud cworwm.

(v) Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Cynigir mân newidiadau i Reol Sefydlog 15:-

- er mwyn cadarnhau bod cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys arsylwi ar drefniadau'r Cynulliad ar gyfer ystyried deddfwriaeth;

- er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor yn gyfrifol am barhau i adolygu'r berthynas ag aelod wladwriaethau eraill yr UE a'r cysylltiad â sefydliadau eraill o fewn yr UE ac yn rhyngwladol; ac

- er mwyn cyflwyno swyddogaeth fonitro'r Pwyllgor o ran torri rheolau sybsidiaredd. Amlinellir hawl seneddau cenedlaethol i fynegi gwrthwynebiadau i gynigion drafft yr UE yng nghyfansoddiad drafft yr UE. Ni fydd yn dod i rym hyd nes y bydd y cyfansoddiad yn cael ei gymeradwyo a'i gadarnhau. Fodd bynnag, mae Senedd y DU wedi datgan ei bod yn awyddus i gyflwyno'r trefniadau cyn hyn a byddai'r paragraff ychwanegol arfaethedig yn Rheol Sefydlog 15 yn galluogi'r Pwyllgor i gytuno ar fecanwaith â hwy.

(vi) Cynigion i Gymeradwyo Gorchmynion Drafft

Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 22.20 yn pwysleisio nad yw'n bosibl diwygio cynigion sy'n cymeradwyo gorchmynion drafft.

(vii) Diddymu Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol

Mae'r diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 22.29 yn cadarnhau amseriad y cyfnod rhybudd o 40 diwrnod o dan 22.29.

(viii) Cyhoeddi Is-Ddeddfwriaeth

Mae Rheol Sefydlog 30.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gyhoeddi is-ddeddfwriaeth a luniwyd neu a gadarnhawyd gan y Cynulliad (ac eithrio Offerynnau Statudol). Mae'r Pwyllgor Busnes yn argymell y dylid trosglwyddo'r dyletswydd hwn i'r Cynulliad er mwyn adlewyrchu arferion presennol.

(ix) Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Mae diwygiadau wedi'u cynnig er mwyn adlewyrchu enw newydd Swyddfa'r Llywydd, fel y trafododd Y Llywydd ag Arweinwyr y Pleidiau.

**Argymhelliad**

8. Gwahoddir yr Aelodau i gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig yn Atodiadau A a B.

**Y Pwyllgor Busnes**
**Mawrth 2004**